Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llechryd
# Ysgol Gynradd Llechryd
# Llechryd
# Ceredigion
# SA43 2NL

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llechryd, sy'n cwrdd mewn ystafell ddosbarth yn ysgol gynradd y pentref, sydd ar gyrion Aberteifi yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad yn agor rhwng 8.45 a 12.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn wythnosol yn ystod tymor ysgol.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed ac wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 14 plentyn. Chwe phlentyn sydd wedi cofrestru i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ond ychydig iawn ohonynt sy'n dod o aelwyd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Nid oes un plentyn wedi ei gadarnhau fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi dwy o ymarferwyr amser llawn , yn cynnwys yr arweinydd a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Mehefin 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Tachwedd 2017 a chan Estyn ym mis Tachwedd 2012.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu
- mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn dod i ddeall cyfarwyddiadau dyddiol yn dda
- bron pob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau
- rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol, gan ddilyn cyfarwyddiadau yn ddeallus a chydymffurfio'n ufudd â threfn y dydd
- cynlluniau'r ymarferwyr yn seiliedig ar syniadau a diddordebau'r plant ac yn ymateb yn dda i'w hanghenion
- cynlluniau'r ymarferwyr yn nodi'n glir y cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant o fewn y thema
- yr ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda
- ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i sbarduno'r plant i ddysgu
- trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar hapusrwydd, cynnydd a lles plant
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i waith y lleoliad ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da at adnoddau o safon briodol i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion y cyfnod sylfaen
- ganddo weithdrefnau priodol i alluogi'r arweinydd i adnabod y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella
- y cynllun gwella yn nodi nifer briodol o dargedau clir, gweithgareddau, pwy sy'n gyfrifol, a chost
- ganddo berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant
- y pwyllgor yn rheoli'r ymarferwyr ac adnoddau eraill yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Annog y plant i ymateb yn fwy llawn yn y Gymraeg i gwestiynau a chyfarwyddiadau

A2 Cynllunio mwy o gyfleoedd cyson ac amrywiol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A3 Sicrhau bod blaenoriaethau’r cynllun gwella yn deillio’n uniongyrchol o ganfyddiadau’r weithdrefn hunanarfarnu a bod y meini prawf llwyddiant a nodir ynddo yn glir ac yn seiliedig ar gynnydd neu les y plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cychwyn yn y lleoliad gyda medrau llythrennedd Cymraeg a rhifedd yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau hyn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r plant mwy abl yn gwneud cynnydd da iawn, yn arbennig ym maes datblygiad mathemategol.

Mae mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn dod i ddeall cyfarwyddiadau dyddiol yn dda, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith wrth ymateb i gwestiynau syml. Fodd bynnag, mae llawer yn rhy araf i ddod i ddefnyddio'r iaith yn hyderus wrth weithio'n annibynnol. Er hyn, mae'r rhan fwyaf yn adnabod dyddiau'r wythnos mewn print ac yn eu henwi mewn trefn. Maent yn ymateb yn frwdfrydig am y tywydd a sut maent yn teimlo yn ystod sesiwn gyntaf y dydd, gan ddefnyddio rhai o'r ymadroddion syml y maent wedi eu dysgu yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd yn astud, yn rhannu profiadau ac yn sgwrsio am weithgareddau yn seiliedig ar eu thema yn lled hyderus, er maent yn tueddu i wneud hynny yn eu mamiaith. Mae ychydig yn dewis darllen o'u gwirfodd, gan ddangos eu bod yn gwybod sut i drin llyfrau yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer gwneud marciau yn annibynnol a chyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth ysgrifennu eu henw ac wrth baentio llun dail amryliw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd yn dda. Maent yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir wrth drafod cnau castan neu wrth chwarae â thrên a thryciau. Maent yn enwi siapiau dau ddimensiwn syml yn gywir ac yn eu hadnabod yn yr ardal ddysgu. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth ddefnyddio adnoddau masnachol pwrpasol. Mae'r mwyafrif yn grwpio gwrthrychau yn ôl lliw yn gywir ac yn enwi'r lliwiau yn hyderus yn y Gymraeg. Mae ychydig o'r plant mwy abl yn adio rhifau syml at ei gilydd yn gywir, fel tri a chwech yn gwneud naw, gan ddefnyddio offer priodol i'w helpu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio amrywiaeth gyfyng o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn lled hyderus. Mae ychydig yn cofnodi eu gwaith trwy dynnu ffotograffau yn annibynnol ar lechen electronig, defnyddio'r ffôn ffug yn y feddygfa neu'n gwrando ar stori ar lyfr electronig.

Mae medrau datrys problemau y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Mae ychydig yn dechrau meddwl sut maen nhw'n mynd i ymateb i dasgau ymarferol fel adeiladu tŵr sy'n uwch na thŵr plentyn arall, neu gymysgu paent coch a melyn er mwyn gwneud oren.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau corfforol da drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, fel cerdded yn y goedwig, reidio beiciau, a dilyn llwybr o gwmpas yr ardal allanol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn gyson i weithio ar raddfa fawr wrth ddefnyddio'r offer dringo yng ngardd yr ysgol. Mae hyn yn datblygu eu hyder yn ogystal â'u medrau corfforol yn llwyddiannus. Mae gallu'r mwyafrif i drin offer bach fel offer ysgrifennu, paentio, a theganau'r byd bach yn datblygu'n dda iawn.

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos â'i gilydd a chyda'r plant a'u rhieni, sy'n sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol, gan ddilyn cyfarwyddiadau yn ddeallus a chydymffurfio'n ufudd â threfn y dydd. Ar y cyfan, mae gan y rhan fwyaf agwedd gadarnhaol at ddysgu, gan ymgymryd â'u gweithgareddau'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae unigolion yn cymryd eu tro i esbonio sut maent yn teimlo yn ystod sesiwn gyntaf y dydd tra bod 'helpwr heddiw' yn dosbarthu ffrwythau a thacluso yn ystod amser tocyn. Mae hyn yn datblygu eu medrau annibynnol yn effeithiol ynghyd â'u gallu i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn deall egwyddor a phwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae bron pob un plentyn yn ymateb yn synhwyrol mewn sesiwn iddynt ymlacio'u corff ar ddiwedd y sesiwn fore, gan wrando ar gerddoriaeth dawel ac efelychu siapiau anifeiliaid a ddynodir ar gardiau fflach. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymdawelu cyn mynd adref.

Mae'r plant yn cynnig syniadau priodol am yr hyn y maent am ei ddysgu wrth ddechrau thema newydd, sy'n gymorth i gynnal eu diddordeb yn eu tasgau dyddiol. Mae bron pob un plentyn yn gwneud dewisiadau'n hyderus wrth benderfynu ble maen nhw am chwarae a beth maen nhw am ei wneud yn ystod y sesiynau. Maent yn gweithio'n lled annibynnol ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gael eu hannog i wella.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cynlluniau'r ymarferwyr yn seiliedig ar syniadau a diddordebau'r plant ac yn ymateb yn dda i'w hanghenion. Maent yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae'r cynlluniau yn nodi'n glir gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant o fewn y thema. O ganlyniad, mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mron pob maes dysgu ac yn herio'r plant i ymroi'n gydwybodol i'w tasgau. Mae enghreifftiau da yn cynnwys gweithgareddau diddorol i gyfateb rhif a siâp, a thrafod straeon neu ganu rhigymau mewn sesiynau torfol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y plant yn greiddiol i'r holl weithgareddau, ac mae'r ymarferwyr yn ceisio datblygu hyn yn barhaus trwy fodelu iaith yn gelfydd. Cyfyng, fodd bynnag, yw'r cyfleoedd a ddarperir i blant ddefnyddio ystod o offer TGCh heblaw am dynnu lluniau ar lechi electronig, cymryd negeseuon ar y ffôn ffug yn y feddygfa a gwrando ar stori gan ddefnyddio llyfr electronig.

Yn dilyn trafodaethau wythnosol, mae'r ymarferwyr yn addasu gweithgareddau i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu anghenion gwahanol y maent wedi dod ar eu traws wrth arsylwi ar y plant yn chwarae a gweithio. Ar ddechrau thema newydd, maent yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant gyfrannu eu syniadau hwythau i'r gweithgareddau. Mae hyn yn hybu eu chwilfrydedd ac yn datblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, roedd y plant am ddysgu mwy am waith y postmon a'r plismon wrth drafod eu thema flaenorol yn seiliedig ar 'pobl sy'n ein helpu', felly addaswyd y tasgau yn briodol er mwyn gwireddu hynny.

Cynllunnir cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio beiciau a theganau symudol eraill yn yr ardal allanol.  Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarn i blant fynd am dro yn rheolaidd trwy goedwig yr ysgol, gan ddilyn ei gilydd ac arsylwi ar gyfoeth lliwgar dail yr hydref.  Mae'r gweithgareddau hyn yn fodd i ddatblygu medrau corfforol y plant yn effeithiol ynghyd â'u hymwybyddiaeth o brydferthwch byd natur.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain ac yn cynllunio'n gweithgareddau bwriadus yn achlysurol i'w galluogi i ymarfer eu medrau datrys problemau.  Er enghraifft, maent yn annog y plant i gymysgu paent coch a melyn i wneud oren i baentio dail yr hydref.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cynnwys dathlu diwrnodau arbennig fel Dydd Gŵyl Dewi yn flynyddol, a defnyddio chwedlau traddodiadol fel sail i'w themâu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.  Maent wedi ymweld â chanolfan cwch achub Poppit i gyd-fynd â thema 'yr haf', ac mae postmon lleol wedi ymweld â nhw fel rhan o'r thema flaenorol.  Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant am bobl sy'n eu helpu o fewn y gymuned yn effeithiol.

**Addysgu:  Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda.  Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau bod pob un yn gwneud cynnydd da.  Maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol mewn ffordd hynaws ond cadarnhaol.  Mae hyn yn annog y plant i gyfranogi'n gydwybodol a mwynhau ym mhob gweithgaredd.  Maent yn holi'r plant yn gelfydd ac yn eu herio'n gyson wrth iddynt gymryd rhan mewn tasgau ffocws a pharhaus.  Maent yn modelu'r iaith Gymraeg yn gyson ac yn annog y plant i siarad yn y Gymraeg yn barhaus o'r cychwyn cyntaf.  Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant i'w hysgogi a'u cymell i lwyddo.  O ganlyniad, mae cymhelliant y plant yn uchel, ac maent yn ymdrechu'n dda wrth eu tasgau.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i sbarduno'r plant i ddysgu.  Er enghraifft, mae'r arweinydd yn defnyddio coedwig yr ysgol fel man cyffrous i ddarllen stori i'r plant am Wil Wiwer a'r cysgaduriaid eraill, ac yn tynnu eu sylw at y dail amryliw sydd o'u cwmpas.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn llwyddiannus.  Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi unrhyw gynnydd nodedig a wneir gan blant yn ddyddiol ar bapurau gludiog ac yn eu gosod yn eu cofnodion unigol.  Defnyddir yr asesiadau hyn yn gyson i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae ymarferwyr yn dathlu llwyddiannau ac ymroddiad nodedig y plant ar ddiwedd y sesiwn fore ac yn dosbarthu sticeri i'w gludo ar daflen briodol.  Pan fydd y daflen yn llawn, caiff y plant fynd â hi adref.  Mae hyn yn hybu ymdrech ac ymroddiad yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae'r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr wrth y drws yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn trosglwyddo gwybodaeth benodol amdanynt i'r ysgol gynradd. Mae hyn yn eu helpu i drosglwyddo'n esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o sesiynau grŵp mawr, fel amser carped, amser tocyn ac amser stori, i feithrin y gwerthoedd hyn gan annog y plant i feddwl, i gymryd eu tro ac i wrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd. Cynhelir sesiynau hyfryd, er enghraifft, i ymdawelu'r plant a'u hannog i feddwl yn fyfyrgar i gefndir cerddoriaeth dawel cyn mynd adref. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn ystyried a pharchu teimladau ei gilydd yn ystyriol.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi eu dwylo, derbyn ffrwyth a diod yn ystod amser tocyn, a derbyn eu brwsys unigol yn ystod y sesiwn glanhau dannedd. Mae ysgwyddo rôl 'helpwr heddiw' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn dderbyn cyfrifoldeb yn eu tro a datblygu eu hannibyniaeth.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant ac mae'r lleoliad yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu'n gadarnhaol at ffordd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn a photeli plastig ac i gompostio gwastraff bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar iawn wrth dderbyn y plant yn y bore, yn ystod y sesiwn, a phan fyddant yn mynd adref amser cinio. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Yr arweinydd sy'n gyfrifol am drefnu ac addasu'r ddarpariaeth i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu penodol fydd gan unigolion ac mae'n cofnodi manylion perthnasol yn briodol. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol wrth wneud hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddysgu ymhob un o'r ardaloedd gwahanol y tu mewn ac yn yr ardal allanol.

Mae ethos gweithgar a hamddenol y lleoliad yn adlewyrchu'r pwyslais y mae arweinwyr yn ei roi ar gydweithio ac ymroi i weithgareddau. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais parhaus ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am wahanol ddiwylliannau a gwyliau fel y Nadolig, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali yn flynyddol.

Defnyddir adnoddau'n benodol i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen ac anghenion penodol y plant. Fe'u defnyddir yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a gweithgareddau amrywiol a diddorol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau, sydd mewn cyflwr da iawn, yn cael eu cadw ar lefel briodol i alluogi'r plant i'w cyrraedd a'u gosod heibio wedi iddynt orffen â nhw. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol. Mae gan y lleoliad gyflenwad cyfyng o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant.

Mae'r ystafell ddosbarth yn rhan o ysgol gynradd y pentref, ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n lân a diogel. Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, twba tywod, cegin fwd ac ardaloedd priodol i farcio a chwarae rôl, ymhlith eraill. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Er nad oes mynediad di-dor gan y plant i'r ardal allanol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod y tu allan ar adegau penodol yn ystod y sesiwn. Defnyddir neuadd a thir yr ysgol yn synhwyrol ar gyfer gweithgareddau penodol na ellir eu cyflwyno yn y dosbarth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar hapusrwydd, cynnydd a lles plant. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r ymarferwr eraill, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r ymarferwr arall ac mae'r ddwy yn rhannu gwybodaeth am weithdrefnau dyddiol a chynnydd plant yn effeithiol iawn. Mae rolau'r ymarferwyr yn glir ac wedi eu cofnodi mewn disgrifiadau swyddi manwl. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, yn hybu gwaith tîm effeithiol, ac yn eu galluogi i gefnogi a herio'r plant i gyflawni hyd orau eu gallu.

Rheolir perfformiad y staff yn effeithiol gan y person cofrestredig. Mae deilliannau'r weithdrefn yn cyfrannu'n uniongyrchol at werthusiad blynyddol ffurfiol o'u perfformiad ac yn sicrhau bod ganddynt fynediad defnyddiol at hyfforddiant penodol. Mae hyn yn cysylltu'n dda â'u hanghenion proffesiynol ynghyd â blaenoriaethau gwella'r lleoliad a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, ac yn arwain yn naturiol at welliant mewn darpariaeth, safonau a lles plant fel datblygu eu medrau rhifedd, er enghraifft.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i waith y lleoliad ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da at adnoddau o safon briodol i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Trwy ymweliadau rheolaidd y person cofrestredig, mae aelodau'r pwyllgor yn dod i adnabod y lleoliad yn dda ac yn cefnogi a dwyn yr arweinydd i gyfrif yn briodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol i alluogi'r arweinydd i adnabod y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r gweithdrefnau yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd gwaith y lleoliad mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Mae'r meysydd a nodir fel y rhai sydd angen eu gwella yn briodol ac mae cyswllt clir rhwng

y mwyafrif ohonynt a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella. Fodd bynnag, mae rhai o'r blaenoriaethau eraill yn y cynllun gwella yn seiliedig ar argymhellion yr arolygiad blaenorol, sydd bellach yn rhy bell yn y gorffennol. Er hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod y cynllun gwella yn nodi nifer briodol o dargedau clir, gweithgareddau, pwy sy'n gyfrifol, a chost. Nodir sylwadau monitro yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddatblygiad yn erbyn y targedau. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd mesur effaith y gweithgareddau ar ddeilliannau plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant. Mae ganddo bolisi drws agored ac mae staff bob amser yn cyfarch y rhieni wrth y drws ac yn barod i drafod materion perthnasol gyda nhw yn y man a'r lle, os yw'n briodol. Cynhelir sesiwn agored yn flynyddol i groesawu plant newydd ac i alluogi rhieni i drafod datblygiad eu plentyn yn fwy ffurfiol gyda'r ymarferwyr. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol a bwrdd arddangos y lleoliad yn effeithiol i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau ac i rannu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall gyda nhw. Mae rhieni yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref gyda'r ysgol gynradd y mae'n ffodus i gael ei leoli ynddi. Mae hyn yn ei alluogi i rannu adnoddau, sy'n cynnwys y neuadd, yr ardal allanol a'r goedwig. Mae'r plant yn gyfarwydd â mynychu'r ysgol ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r staff, gan fynychu sesiynau hyfforddiant ar y cyd, a chyd-drefnu gweithgareddau codi arian. Mae'r cyswllt cadarn a buddiol hwn yn hwyluso'r broses trosglwyddo ac yn sicrhau bod y plant, yn eu tro, yn hapus wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd.

Trefnir ymweliadau cyson gan aelodau'r gymuned, fel y postmon lleol, i gyfoethogi gweithgareddau'r lleoliad. Bu nifer o weithwyr lleol eraill hefyd yn ymweld yn eu tro i godi ymwybyddiaeth y plant o bobl sy'n eu helpu. Mae aelodau'r gymuned yn gefnogol iawn i waith y lleoliad a bob amser yn barod iawn i gefnogi ei weithgareddau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pwyllgor yn rheoli'r ymarferwyr ac adnoddau eraill yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr arweinydd a'r ymarferwr arall yn hapus yn eu gwaith a threfnir hyfforddiant priodol i godi eu hymwybyddiaeth o faterion penodol yn seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol ac amcanion gwella'r lleoliad. Cefnogir yr arweinydd a'r ymarferydd arall yn effeithiol gan swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, ymysg eraill, sy'n hapus iawn i gynnig syniadau a'u cyfeirio at hyfforddiant priodol. Mae enghreifftiau da o hyfforddiant diweddar yn cynnwys modiwlau penodol ar ddatblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen a dulliau i baratoi plant ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Gwneir defnydd priodol o grant datblygu'r blynyddoedd cynnar, sy'n cael ei gadw'n ganolog gan yr awdurdod lleol, i hyfforddi ymarferwyr mewn meysydd priodol.

Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn trefnu gweithgareddau cyson i godi symiau sylweddol o arian i gefnogi gwaith y lleoliad ac maent yn gwneud defnydd effeithiol ohono i ariannu'r blaenoriaethau gwella ac ati. O ganlyniad i effaith gadarn y

ddarpariaeth ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |